



Cylchlythyr Partneriaeth Natur Lleol Sir Fynwy

Gwanwyn 2024

Cefnogi a Rhwydweithio PNLI

Ers ail-lansio Partneriaeth Natur Lleol Sir Fynwy (PNLI) yr haf diwethaf, rydym wedi bod yn gweithio i gefnogi amrywiaeth o brosiectau a grwpiau ledled y sir sy'n gwneud gwahaniaeth i natur.

Rydym wedi parhau i ymateb i geisiadau ar gyfer cynlluniau pecynnau Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Cadwch Gymru'n Daclus ac yn croesawu'r prosiectau bach hyn mewn ysgolion a hybiau cymunedol a all wneud gwahaniaeth enfawr i fannau bach.

[Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru](#) yw cynllun gwobrwyo sydd wedi'i gynllunio i gefnogi gwasanaethau gofal sylfaenol fel meddygyfeydd, deintyddion ac optegwyr i leihau eu heffaith amgylcheddol a gwella eu safleoedd ar gyfer bioamrywiaeth. Mae sawl practis wedi cofrestru ar gyfer y cynllun yn Sir Fynwy ac mae'r PNLI wedi bod yn eu cefnogi gyda chyngor a syniadau ar gyfer gwelliannau y gallant eu gwneud i gyflawni nodau'r cynllun. Rydym wedi ymweld â dau safle yn y Fenni ac wedi awgrymu gwelliannau posibl i fioamrywiaeth ar gyfer yr arferion, megis gosod blychau adar ac ystlumod, creu gwestai pryfed, yn ogystal ag awgrymu plannu blodau gwyllt a choed brodorol i annog peillwyr lle mae'r gofod yn caniatáu.

Os oes gennych syniad ar gyfer prosiect neu os ydych yn grŵp cymunedol sy'n chwilio am gymorth neu gyngor ynghylch bioamrywiaeth, cysylltwch â ni localnature@monmouthshire.gov.uk



Dolydd blodau gwyllt yn Severn Crescent, Cas-gwent



Yn Nhrefynwy, mae grŵp 'Cyfeillion Mynwent Trefynwy' wedi cael ei ail-lansio gan grŵp o wirfoddolwyr lleol brwd. Bydd y grŵp yn gweithio i wella bioamrywiaeth ar y safle a thacluso rhai o'r beddau er mwyn caniatáu i fwy o bobl ymweld yn ddiogel. Ochr yn ochr â swyddog mynwentydd Cyngor Sir Fynwy, y tîm tiroedd a'r PNLI, bydd cynllun rheoli yn cael ei ddatblygu ar gyfer y safle fel y gall y Cyfeillion gydlyn a gwneud y mwyaf o'u gweithredoedd i wella'r safle ar gyfer bywyd gwyllt ac er lles. Y camau cyntaf fydd sefydlu ardaloedd y ddôl o amgylch rhannau hŷn y fynwent a rheoli rhai rhannau gwasgarog o fieri. Gallai camau gweithredu yn y dyfodol gynnwys plannu coed a gwrychoedd, a chreu pentyrrau cynefin ar gyfer infertebratau a bywyd gwyllt. Bu cofnodion blaenorol o slorymod ar un o'r cloddiau glaswellt yma, felly gobeithio y bydd gwella rheolaeth dolydd hefyd yn gwella'r ardal ar gyfer slorymod hefyd a byddant yn cael eu gweld yn amlach dros fisoedd yr haf.



Mynwent Trefynwy



Lleoedd Lleol ar gyfer Natur

Mae Cyngor Sir Fynwy wedi derbyn cyllid Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Llywodraeth Cymru i ddarparu 'Natur ar Garreg y Drws' i drigolion ac ymwelwyr. Ar gyfer 2023/24 mae'r Tîm Seilwaith Gwyrdd wedi bod yn canolbwyntio ar gyflawni yn y Fenni, gydag astudiaeth i nodi safleoedd a chyfleoedd ar gyfer gwelliannau i fyd natur a phobl er mwyn creu Mannau Natur Cymunedol. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus trylwyr, gan gynnwys tudalen we, taflenni i breswylwyr, datganiadau i'r wasg, digwyddiadau naid, ac ymgysylltu â rhanddeiliaid; o fewn Cyngor Sir Fynwy a'r tu allan, gan gynnwys y Cyngor Tref, grwpiau cymunedol lleol a thrigolion y Fenni. Y safleoedd sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd yw ymyl ffordd Lower Monk Street, ardal chwarae Major's Barn, ardal chwarae St Helen's Close, mannau gwyrdd yn Dan y Deri, yr Orsaf Fysiau a Pharc Croesonen.

Ochr yn ochr â'r prosiect Mannau Natur Cymunedol, dyfarnwyd cyllid i Gyngor Sir Fynwy drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, trwy Bartneriaeth Grid Gwyrdd Gwent, i barhau i ddatblygu 'Prosiect Seilwaith Gwyrdd y Coridor Gwyrdd' sy'n cynnwys prif aneddiadau Sir Fynwy. Nod y prosiect yw nodi mannau gwyrdd bach i ganolig ar gyfer gwella bioamrywiaeth, sydd wedi'u lleoli o fewn 'Coridorau Gwyrdd' sydd wedi'u mapio sy'n croesi ein haneddiadau trefol. Nid yn unig y byddant yn gweithredu fel 'cerrig camu' ar gyfer bywyd gwyllt sy'n teithio drwodd i'r tirweddau mwy (ar ymylon ein haneddiadau), ond byddant yn cynyddu gwytnwch ecolegol y Coridorau Gwyrdd hyn ac yn gwella lles cymunedol.

Mae'r cyllid Lleoedd Lleol ar gyfer Natur wedi ariannu gweithredu rhai o'r prosiectau: Old Hereford Road (Y Fenni), ymylon ffordd Redwick Rd Park a Newport Rd (Magwyr), Hendre Close/Rockfield Avenue a Watery Lane/Rolls Avenue (Trefynwy), Caeau Chwarae Rhosied, Starling Close (Rhosied) ac ymylon ffordd a chylchfan Rogiet Station Rd.

Mae'r ddau brosiect yn darparu 'natur ar garreg y drws' i breswylwyr ac ymwelwyr, yn ogystal â chynyddu gwytnwch ecolegol coridorau gwyrdd ar draws ein setliadau gan sicrhau'r canlyniadau mwyaf posibl ar gyfer bioamrywiaeth a lles cymunedol.

Mae timau tir gogledd a de Cyngor Sir Fynwy wedi bod yn gweithio'n galed dros y ddau fis diwethaf yn paratoi'r tir, plannu a hadu i ddechrau dod â'r mannau'n fyw. Bydd y prosiect Mannau Natur Cymunedol yn plannu 286 o egin-wrychoedd, 11 coeden sbesimen, 12 coeden berllan amrywiaeth treftadaeth, 540 o blygiau blodau gwyllt ac 85 o blanhigion gwely addurnol. Bydd prosiect y Coridorau Gwyrdd yn plannu 3963 o egin-wrychoedd, 222 o lwyni, 126 o goed sbesimen, 39 o goed perllan amrywiaeth treftadaeth, 50 o blanhigion gwely addurniadol a 4245 o fylbiau'r gwanwyn. Yn ogystal, bydd cyfanswm o 1290m² o dyweirch blodau gwyllt yn cael ei osod a bydd 13.2 cilogram o hadau blodau gwyllt brodorol yn cael eu hau ar draws y safleoedd. Mae bocsys bywyd gwyllt ar gyfer ystlumod, adar a invertebratau yn ogystal â meinciau a phlanwyr tyfu bwyd cymunedol hefyd yn cael eu hychwanegu at rai o'r mannau hyn. Rydym hefyd yn gosod 3 mainc i'r gymuned fwynhau mynediad i'r fioamrywiaeth gynyddol ar garreg eu drws.

Dros yr wythnosau diwethaf, mae grwpiau ysgol a thrigolion lleol wedi ymuno â ni i helpu gyda'r gweithgareddau plannu a hadu, gan greu cyfle gwych i bobl leol fwrw ymlaen â'u mannau lleol. Maen nhw wedi helpu i blannu perllan gymunedol yn Park Close yn y Fenni, plannu coed a



gwrychoedd ym Mharc Hamdden Redwick Road ym Magwyr a hau hadau blodau gwyllt yng Nghaeau Chwarae Rhosied.

Mae'r cyllid yn parhau i'r flwyddyn ariannol nesaf; byddwn yn edrych ar safleoedd ar draws y sir i wella ar gyfer bywyd gwyllt a chymunedau lleol drwy brosiectau Mannau Natur Cymunedol a Choridoriau Gwyrdd.



Plannu coed ym meysydd chwarae Rhosied



Plannu Cymunedol

Fel y soniwyd uchod, mae trigolion lleol a grwpiau ysgolion wedi ymuno â ni i helpu gyda gweithgareddau plannu a hadu ar safleoedd Mannau Natur Cymunedol a Choridoriau Gwyrdd, mae'r lluniau isod yn dangos y gwaith gwyllt!



Tîm tiroedd Cyngor Sir Fynwy yn helpu gyda phlannu coed ym man hamdden Redwick Road, Magwyr



Myfyrwyr ysgol gynradd Rhosied yn hau hadau blodau gwyllt yng nghaeau chwarae Rhosied



Myfyrwyr o ysgol gynradd Cantref yn helpu i blannu blodau
gwyllt yn Park Close, y Fenni



Myfyrwyr o ysgol gynradd Pembroke yn helpu plannu blodau
gwyllt yn Strongbow Road, Cas-gwent




CGAN Lleol Sir Fynwy

Aeth y drafft cyntaf o Ran 1 CGAN Lleol Sir Fynwy at aelodau'r PNLI i gael adborth ym mis Chwefror 2024. Diolch i'r rhai sydd wedi cynnig adborth gwerthfawr. Rydym wedi gwneud rhai newidiadau yn seiliedig ar yr adborth hwnnw ac mae'r drafft terfynol yn barod ar gyfer cymeradwyaeth cabinet Cyngor Sir Fynwy ac ymgynghoriad cyhoeddus. Mae'r CGAN yn rhan o Strategaeth Argyfwng Hinsawdd a Natur Cyngor Sir Fynwy sydd hefyd yn y broses o geisio cymeradwyaeth gan Gabinet Cyngor Sir Fynwy. Mae gan y Strategaeth Argyfwng Hinsawdd a Natur bedair colofn gydgyssylltiedig o weithredu, gan gynnwys Allyriadau'r Cyngor, Adfer Natur, Afonydd a'r Môr a Chymunedau a'r Hinsawdd. Mae Adfer Natur yn cynnwys Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau Cyngor Sir Fynwy (Adran 6), y CGAN a'r Strategaeth Seilwaith Gwyrdd.

Hoffem sefydlu gweithgor o aelodau PNLI i fod yn gyfrifol am adolygu cynlluniau gweithredu cyn iddynt gael eu cyhoeddi, a chynnal adolygiad blynyddol o'r camau gweithredu ar gyfer monitro ac adrodd. E-bostiwch localnature@monmouthshire.gov.uk os oes gennych ddiddordeb mewn bod yn rhan o'r grŵp.

Hoffem hefyd gynnwys astudiaethau achos o brosiectau adfer natur a gynhaliwyd gan aelodau PNLI, felly os oes unrhyw beth yr hoffech ei rannu, cysylltwch â ni.





Erthygl Nodwedd – Prosiect Blwch Nythu Gwent – *Paul Greenfield*

Yn 2009 daeth grŵp o adarwyr brwd ynghyd â chynrychiolydd o'r Ymddiriedolaeth Adareg Prydain i ffurfio'r hyn a elwir bellach yn Brosiect Blwch Nythu Gwent. Eu nod oedd darparu safleoedd nythu ar gyfer adar sy'n nythu mewn tyllau, yn enwedig mewn ardaloedd lle'r oedd tyllau naturiol yn gyfyngedig, a monitro gweithgarwch nythu yn unol â methodoleg Cynllun Cofnod Nyth Ymddiriedolaeth Adareg Prydain. Adeiladwyd tua chant o flychau nythu a'u gosod mewn chwe ardal a redir gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Gwent.

Cafodd y bocsys eu monitro'n wythnosol yn ystod y tymor nythu a chyflwynwyd cofnodion i'r Ymddiriedolaeth Adareg Prydain. Mae cofnodi nythod yn ffordd wych i'n gwirfoddolwyr gael blas go iawn ar yr hyn sy'n digwydd i boblogaethau adar yn eu hardal, a chyfrannu at gronfa ddata genedlaethol Ymddiriedolaeth Adareg Prydain. Mae ein gwirfoddolwyr monitro o bob oedran a chefnidir sydd â diddordeb cyffredin mewn adar a'r amgylchedd naturiol. Mae prosiect Gwent wedi tyfu dros y blynnyddoedd. Bellach mae gennym oddeutu hanner cant o wirfoddolwyr monitro yn gwirio dros 750 o flychau nythu mewn tri deg lleoliad ar draws y sir: o fynwentydd yn y gogledd-orllewin i warchodfa natur yn y gogledd-ddwyrain, i dir ysbytai yn y de-ddwyrain, i leoliad trefol yng Nghasnewydd yn y de-orllewin. Pan ddechreuon ni, cyflwynwyd ein cofnodion ar daenlenni Excel, ond heddiw, gyda thua chwe mil o gofnodion yn cael eu cynhyrchu bob tymor, fe'u cofnodir yn uniongyrchol i DemographyOnline. Rydym hefyd yn anfon copïau o'n canlyniadau i'r tirfeddianwyr ac yn sicrhau eu bod ar gael i SEWBREC.



Gwybedog Brith benywaidd mewn blwch nythu

Mae ffocws cyfredol yn y prosiect ar boblogaeth y Gwybedog Brith yn y sir. Mae'n debyg bod nifer o ffactorau yn effeithio ar boblogaethau ein hadar sy'n nythu; colled cynefinoedd a newid yn yr hinsawdd yw dau sy'n dod i'r meddwl yn syth. Dros y blynnyddoedd, mae Gwybedogion Brith sy'n nythu wedi cael eu monitro ar naw o'n rowndiau, ond nawr dim ond ar dair neu bedair rownd y cawn hyd iddynt. Ar yr ochr gadarnhaol, mae nifer y nythod wedi aros yn gyson, er eu bod bellach yn fwy dwys yng ngogledd y sir. Mae hyn yn unol â data cenedlaethol a gyhoeddwyd. Mae'r wybodaeth werthfawr a gasglwyd gan ein gwirfoddolwyr monitro dros y pymtheg mlynedd diwethaf yn ein galluogi i nodi tueddiadau poblogaeth a gall hefyd helpu i ddylanwadu ar strategaethau rheoli tir. Rydym bellach wedi dechrau modrwyo rhai o'r ifanc a fydd, gobeithio, yn ychwanegu at ein gwybodaeth yn y blynnyddoedd i ddod.



Er mwyn darparu cymorth ychwanegol pan fydd adar mudol yn cyrraedd yn ôl o Affrica ym mis Ebrill, ein nod yw darparu digon o focsys fel bod gwarged, uwchlaw anghenion y boblogaeth adar preswyl. Eleni rydym yn treialu rhwystro mynedfeydd rhai blychau sydd wedi cael nythod llwyddiannus mewn blynnyddoedd blaenorol, nes bod y Gwybedogion Brith cyntaf yn cyrraedd y safle. Rydym hefyd wedi sefydlu rownd blwch nythu newydd uwchben y Fenni, mewn coetir collddail a reolir gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Mae ganddo isdyfiant clir ac rydym yn gobeithio y bydd Gwybedogion Brith yn nythu yn yr ardal ac y byddant yn cael eu temtio i'n blychau. Wrth i mi ysgrifennu, mae pum pâr o Wybedogion Brith wedi cael eu gweld yn yr ardal. Mae'n dal i roi tipyn o wefr i mi wrth ddod o hyd i'r sypynnau cyntaf o laswellt yng ngwaelod bocs ac wythnos yn ddiweddarach i weld nythaid o wyau glas llachar.

Ar gyfer y tymor nesaf byddwn yn parhau i nodi lleoliadau nythu addas ar gyfer yr adar hyn ac yn gobeithio cyfrannu at strategaethau rheoli coetir a all eu cefnogi.



Un o'r safleoedd arolygu coetiroedd



Dathlu a Chefnogi Eco-weithredu mewn Ysgolion

Mae arolwg ar-lein a grëwyd i gasglu gwybodaeth am weithredoedd a gweithgareddau cyfredol ysgolion tuag at achosion amgylcheddol wedi cael ei anfon i ysgolion cynradd ledled Sir Fynwy ym mis Chwefror. Rydym wedi cael nifer dda o ymatebion hyd yma a byddwn yn annog mwy o ysgolion i gwblhau'r arolwg, fel y gallwn gael darlun llawn o'r hyn sy'n digwydd mewn ysgolion a sut y gall y PNLI eu cefnogi.

Fel diolch i ysgolion am rannu eu hymatebion, rydym yn gweithio gyda thîm Grid Gwyrdd Gwent i gynnig gweithdy eco-thema am ddim i ysgolion sy'n cwblhau'r arolwg. Mae hyn hefyd yn rhoi cyfle i ni ymweld â thiroedd ysgolion a gweld y gwaith gwyhych y maent wedi bod yn ei wneud wrth greu dolydd blodau gwyllt, mannau dysgu awyr agored a mannau tyfu ar gyfer bwyd y gellir ei ddefnyddio ar gyfer prydau ysgol i'r plant.

Gan ddefnyddio'r ymatebion o'r arolwg, rydym yn nodi ysgolion nad ydynt ar hyn o bryd yn defnyddio tîm Cyngor Sir Fynwy ar gyfer cynnal a chadw tiroedd yr ysgol. Gall timau cynnal a chadw tiroedd Cyngor Sir Fynwy gynnig ystod eang o gymorth yn ogystal â gofalu am fannau gwyrdd yr ysgolion, gan gynnwys darparu gweithdai a gweithgareddau, a chynghor ar ofal coed a delio â chwynion. Byddwn yn edrych ar greu dogfennau canllaw i benaethiaid i ddangos beth all y timau tiroedd ei wneud i gefnogi gwelliannau bioamrywiaeth ar diroedd ysgolion.

Mae rhwydwaith staff o fewn Cyngor Sir Fynwy wedi creu, gan ddod â staff ynghyd sy'n gweithio'n rheolaidd gyda grwpiau ysgol ar themâu amgylcheddol fel hinsawdd, bioamrywiaeth, sbwriel a llygredd. Mae'r rhwydwaith newydd yn galluogi staff i rannu eu gweithdai sydd ar ddod a gyda pha ysgolion, fel y gellir cysylltu ag unrhyw ysgolion sy'n llai cysylltiedig, a'u cefnogi os oes angen. Mae'r rhwydwaith hefyd yn creu cyfle i rannu gwybodaeth a nodi llwyddiannau a phroblemau cyffredin.

Wrth symud ymlaen, bydd rhwydwaith athrawon yn cael ei sefydlu er mwyn rhannu cyfleoedd a phrofiadau o fewn ysgolion ac i staff Cyngor Sir Fynwy ddarparu cymorth lle bo angen.





Newyddion gan Bartneriaid

Grŵp Dolydd Sir Fynwy – *Steph Tyler*

Mae'r Tegeirian Asgell Werdd *Anacamptis morio* yn rhywogaeth dan fygythiad cenedlaethol, sy'n ymddangos mewn hen ddolydd gwair a phorfeydd amaethyddol heb eu gwella. Yn 2012 fe ddangoson ni fod 20 o safleoedd yn bodoli ar gyfer y rhywogaeth yn is-sir Sir Fynwy, wedi eu canoli ar Lwyfandir Tryleg yn enwedig o amgylch Penallt a Thryleg gydag allgraig ar y ffordd ymuno i Frynbuga o'r A40.

Erbyn 2023 roedd tua 16 o safleoedd newydd wedi'u darganfod. Yn ychwanegol at hynny, mewn un hen safle'r Weinidogaeth Amddiffyn yng Nghaerwent, lle na chanfuwyd blodau yn 2012, gwelwyd y rhywogaeth yn 2016. Mae'r safleoedd newydd yn bennaf yn ddolydd sy'n eiddo i aelodau o Grŵp Dolydd Sir Fynwy, lle gyda rheolaeth gydymdeimladol roedd y tirlfeddianwyr wedi bod yn falch o ddarganfod un neu fwy o Degeirian Asgell Werdd ar eu tir. Y gobaith yw y bydd y niferoedd yn lluosu yn y dyfodol fel y digwyddodd ar un safle, lle cofnodwyd ychydig o flodau am y tro cyntaf yn 2009 ac erbyn 2012 rhifodd sawl cant. Roedd un o'r safleoedd newydd y tu allan i Sir Fynwy yn Nhorfaen - ym Mlaenserchan.

Ychydig iawn o safleoedd sy'n cynnal miloedd – dim ond Gwarchodfeydd Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent yn New Grove, yn Ffermydd Pentwyn/Bush ym Mhenallt ac yn Brockwells ger Caerwent, ac mewn safle preifat ar Wastatir Cobblers. Fodd bynnag, gyda'r rheolaeth gywir a'r ffyngau mycorrhizol cywir, mae'r dyfodol yn edrych yn galonogol i'r rhywogaethau yn Sir Fynwy.



Tegeirian Asgell Werdd yn Sir Fynwy, lluniau gan David Llewellyn a Maggie Hamlen



Prosiect y Grange — *Tom Constable*

Cynhaliodd Prosiect y Grange, prosiect adfer natur 80 erw rhwng Trefynwy a'r Fenni, ei 'Ddiwrnod Cymunedol' cyntaf ar 16 Mawrth, 2024. Croesawyd dros ddeg ar hugain o wirfoddolwyr i'r prosiect a chymryd rhan mewn amrywiaeth o ymyriadau, gan gynnwys:

- Cael gwared ar ffensys mewnol - er mwyn caniatáu i fywyd gwylt deithio'n fwy rhydd a chynyddu'r teimlad o 'wyltiroedd' ar draws y safle.
- Creu tri phentwr malurion - fel amddiffyniad i'r glasbrennau a blannwyd ac i greu cynefin bywyd gwylt.
- Plannu dros 350 o goed brodorol i ddechrau dosbarthu hadau i ganol y caeau.

Fe wnaethon ni fwyta llawer o gacen hefyd! Roedd yr awyrgylch ar y diwrnod yn llawn pwrpas, brwdfrydedd a llawenydd a rannwyd, ac rydym mor ddiolchgar i'r holl wirfoddolwyr a roddodd o'u hamser i ddod i'n cefnogi. Rydym eisoes yn edrych ymlaen at yr un nesaf (er efallai y bydd angen ychydig o amser arnom i wella!) Mae'r dyfyniad hwn o'r diwrnod yn crynhoi ein profiad yn dda:

"Hollol wrth fy modd. Roedd mor braf cael fy amgylchynu gan gymaint o bobl sy'n gweld beth yw'r peth angenrheidiol i'w wneud ac sy'n barod i fynd ati'n llwyr... Am ddiwrnod da!" - Adborth o Ddiwrnod Cymunedol 1 Prosiect y Grange (Gwanwyn 2024).





Cyfryngau Cymdeithasol

Os nad ydych yn gwneud hyn yn barod, dilynwch ni ar Facebook, X (Twitter) ac Instagram, lle byddwn yn rhannu diweddariadau a straeon am weithgareddau a chyfleoedd natur ledled Sir Fynwy.

[Facebook - Partneriaeth Natur Lleol Sir Fynwy](#)

[X – Mon LNP](#)

[Instagram – Monmouthshire Inp](#)





Newyddion a Digwyddiadau o Fannau Eraill

DIWRNOD GYLFINIR Y BYD - 21^{ain} Ebrill – Manylion ar eu [tudalen Facebook](#)

GŴYL AFON WYSG – 1^{af} Mehefin – Ynys Wysg, Llanbadog, Brynbuga, NP15 1SZ - [Gŵyl Afon Wysg | Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent](#)

EWCH YN WYLLT – 29^{ain} Mehefin - Parc Pont-y-pŵl - Partneriaeth Natur Lleol Blaenau Gwent a Thorfaen – Bydd rhagor o fanylion yn cael eu rhyddhau yn fuan.

Y FENNI GWYRDDACH – 20^{fed} Hydref – Neuadd Farchnad y Fenni – Manylion ar eu [tudalen Facebook](#)

Cyfleoedd Ariannu



Cadwch Gymru'n Daclus

Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn cynnig pecynnau Lleoedd Lleol ar gyfer Natur i drawsnewid mannau nas carwyd yn erddi natur neu fannau tyfu bwyd cymunedol.

Mae'r pecynnau rhagdaledig yn amrywio o brosiectau garddio bach i berllannau a gweddnewidiadau ar raddfa fawr. Mae pob un yn cynnwys planhigion brodorol, offer a deunyddiau eraill.

Gellir dod o hyd i'r manylion llawn ar eu gwefan yma:

[Lleoedd Lleol ar gyfer Natur - Cadwch Gymru'n Daclus](#)

Cronfa Gymunedol Achub Ein Hynysydd Gwyllt

Mae Aviva, mewn partneriaeth â'r WWF a'r RSPB, yn rhoi £1 miliwn i gefnogi grwpiau cymunedol ledled y DU i ddiogelu ac adfer natur yn eu hardal leol.

Darllenwch fwy a gnewch gais [yma](#)

Cyllid Grant Ymddiriedolaeth Natur

Mae'r Naturesave Trust yn ariannu prosiectau amgylcheddol a chadwraeth sy'n canolbwyntio ar brosiectau bach ar gyfer elusennau, mentrau cymdeithasol a sefydliadau cymunedol ar lawr gwlad.

Mae'r meysydd ariannu yn cynnwys **cadwraeth natur, cymunedau cynaliadwy ac ynni adnewyddadwy.**

Mae croeso i geisiadau gan elusennau, sefydliadau di-elw, busnesau, sefydliadau, grwpiau cymunedol ac unigolion am grantiau rhwng £2,500 a £5,000.

Darllenwch fwy a gnewch gais [yma](#)



Coetiroedd Bach yng Nghymru

Cynllun grant sydd â'r bwriad o greu Coetiroedd Bach, fel rhan o Goedwig Genedlaethol Llywodraeth Cymru.

Darganfyddwch fwy a gwnewch gais [yma](#)

Coed Cadw: Coed am ddim i ysgolion a chymunedau

[Dolen](#)



Y Cyfarfod Nesaf:

Bydd y cyfarfod PNLI nesaf yn cael ei gynnal wyneb yn wyneb yn ystod Wythnos Natur Cymru, 29^{ain} Mehefin – 6^{ed} Gorffennaf. Bydd manylion pellach am y dyddiad, lleoliad ac agenda a gadarnhawyd yn cael eu hanfon allan yn dilyn y cylchlythyr hwn.



Man Natur Cymunedol Oaklands, Trefynwy